

Llên natur

Bwletin 129-130
Tachwedd a Rhagfyr 2018

gan gynnwys Y Bwrdd Natur,
adnodd i athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn

Ffwng yng Nghricieth heddiw. 29 Hydref 2018
Gymnopilus junonius [tagell goch fawr] efallai,
neu un o deulu'r *Pholiota* [cap cennog]?

Llun: Iwan Williams
Testun: Cynan Jones



Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk



Dyma erthygl diweddaraf yn y Wikipedia ar un o anifeiliaid cynhenid Cymru a aeth i ddifancoll yn y Canol Oesoedd. Dyma dystiolaeth amdano yng Nghymru ac yng Nghymbria - yn y Gymraeg:

Nid oes amheuaeth am bresenoldeb y lyncs fel anifail gwyllt ym Mhrydain, ac felly (yn ôl pob tyb), yng Nghymru, yn y cyfnod ôl-rewlifol a chyn-hanesyddol. Ym Mhrydain ystyrid y lyncs Ewrasiaidd fel anifail o Eoc y Pleistosen ond a fethodd a chyrraedd yr Holosen. Erbyn hyn fe wyddom fod hyn yn gwbl anghywir. Gwyddom i'r lyncs fyw yn Lloegr a de Iwerddon mor ddiweddar â 9000 o flynyddoedd cyn y presennol. (Cafwyd sbesimenau o Ddyfnaint ac o Swydd Derby a ddarganfuwyd trwy ddull Dyddio Carbon yn dyddio o 8800-9500 flynyddoedd yn ôl). Nid oes rheswm i amau felly bod yr anifail hefyd yn troedio tir Cymru yn ogystal. Fodd bynnag, yn 1997 daeth y newyddion syfrdanol ar y pryd bod lyncsod

Ewrasiaidd wedi goroesi yn yr Alban hyd mor ddiweddar a'r 3edd ganrif AD. Ymddengys erbyn hyn bod ffynonellau Cymraeg eu hiaith yn dyfod a hanes y lyncs fwyfwy i'r presennol, yn gyntaf i 8ed ganrif yr Hen Ogledd, (de'r Alban a Chymbria heddiw), ac wedyn, mor ddiweddar a'r 15g., i ogledd Cymru. Mae'r hwiangerdd enwog Pais Dinogad yng nghorff y gerdd arwrol, treisgar a gwaedlyd Y Gododdin, yn cyfeirio at lew ac at 'llewyn' (chwith isod):

Peis dinogat e vreith vreith

O grwyn balaot ban wreith

Chwit chwit chwidogeith

Gochanwn gochenyn wyth geith

Pan elei dy dat ty e helya

Llath ar y ysgwyd llory eny llaw

Ef gelwi gwn gogyhwch

Giff gaff dhaly dhaly dhwc dhwc

Ef lledi bysc yng corwc

Mal ban llad llew llywywch

Pan elei dy dat ty e vynyd

Dydygei ef penn ywrch pen gwythwch penn hyd

Penn grugyar vreith o venyd

Penn pysc o rayadyr derwennyd

O'r sawl yd gyrhaeddai dy dad di a'i gigwain

O wythwch a llewyn a llwynain

Nid angai oll ni fai oradain

..Chwannog vydd yr hydd yr haf

[awyddus fydd hydd yn yr haf]

A'r llew brych, i'r llwybr vcha

[a'r llewbrych {fynd} i'r llwybr uchaf]

Aed bric a blodev j bren,

[fe a flodau i frig pren]

Aed eryr i vric derwenn.

[fe a eryr i frig derwen]

Ar vric y bendevigaeth,

[ar frig y bendevigaeth]

Yr wyd, Rhys, val môr ar draeth

[yr wyt Rhys fel môr ar draeth]

Mae'r ffynhonnell fwy diweddar yn fwy pendant. (de uchod) Mae David Hetherington yn ecolegydd sydd yn ymchwilio i hanes y lyncs ym Mhrydain. Darganfu gyfeiriad mewn cywydd gan y bardd o'r 15g Dafydd Nanmor at llew brych. Anodd yw credu meddai, i'r fath derm (speckled lion iddo fe) olygu dim arall ond lyncs. Dyma ran o'r cywydd hwn yn clodfori'r uchelwr Rhys ap Rhydderch ap Rhys o'r Tywyn:

Diystyriodd Raye y posibilrwydd mai lyncs oedd 'llew brych' gan i bapur Norwyaidd ddweud nad yw lyncsod yn dilyn ceirw mudol. Ystyriai hefyd ffynhonnell o'r 15g. yn rhy ddiweddar. Barn Hetherington ar yr amseriad fodd bynnag yw, gan y bu lyncsod yn eitha lluosog yn ardaloedd mynyddig amhoblog Ewrop hyd canol y 19g. pam nad felly ym Mhrydain. Yn ychwanegol, nid yw lyncsod yn dilyn llysyswyr fel ceirw i'r mynyddoedd yn yr haf yn cyfrif fel ymfudo yn gymaint â symud syml ychydig fetrau i'r uchelderau wrth iddynt fanteisio ar borfa ir a ffres. Mae'n sefyll i reswm, meddai Hetherington, y byddai lyncsod yn ffocysu eu gweithgaredd ar y rhannau o'u libart lle ceir prae addas. Ychwanega: *"To my non-Welsh reading eyes, I'd struggle to explain what else a 'speckled lion' would be!"* a bod William Harrison, yn ysgrifennu yn y 1570au yn disgrifio sut y bu ar un adeg *"many lions"* ym mharthau gogleddol yr Alban, ond ni chlyw neb amdanynt mwy.

Cyfyd y cwestiwn erbyn hyn ai lyncs oedd pob "llew" neu "lion" ym marddoniaeth gynnar y canoloesedd? "Llew bychan" fyddai llewyn mewn Cymraeg fodern wrth gwrs (gw. Pais Dinogad uchod). Gallai tarddiad "llew" fod o'r Lladin *leo* (dehongliad nad yw heb ei broblemau - sut oedd bardd Pais Dinogad yn gwybod am lew yn yr 8g.?) neu, yn ôl yr ysgolhaig Adrian Price, o *lugh*, sef lyncs yn yr Hen Aeleg (cyn AD900) ac yn gytras a geiriau yn golygu golau pefriol (hy. golau llygaid y lyncs, sef union etymoleg y gair lyncs ei hun). Mae'n werth efallai cyfeirio at Llew, lleufer, lleuad yn y cyswllt hwn. Ewch i [<https://cy.wikipedia.org/wiki/Lyncs>] i weld mwy.

Taith gan Iwan a Keith



Taith gan Iwan (Gwyn) Williams a Keith Jones i ardal Llyn y Fan Fawr 4 Tachwedd 2018 mewn gwynt a glaw. Roedd y daith yn hir – “Tasa Chairman Mao wedi gorfod gwneud y daith hon, ni fuasai China wedi troi at gomiwnyddiaeth!”


Dyma’u llwybr dros Hen Dywodfaen Coch Defonaidd gafodd ei dyddodi mewn môr 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae’r dystiolaeth i’w gweld yn blaen (llun: clogwyn Fan Hir - olion hen draeth). Arweiniodd eu llwybr hefyd dros y ffin ddaearogol i’r Calchfaen



Llun gan Gill Brown

Carbonifferaidd, hŷn eto, tua’r de. (Llun traeth)

Pry Bach Diniwed ar y Gogarth



Tân Bach Diniwed (neu magïen) ar y Gogarth wrth Ysgol San Siôr 7 Gorffennaf 2018. Ian Keith Jones

Tybed sut oedd goleuadau tref fel Dolgellau yn ymddangos i Aikin cyn oes trydan a nwy. A dychmygwch maint y trai a fu ym mhoblogaeth y fagiens ers hynny, ac yntau yn gallu drysu golau’r pryf â golau’r dref. Tybed a oedd y ser yn rhan o’r un gawled ym magddu Dolgellau y noson honno.

Magïen neu tân bach diniwed - dosbarthiad y pryf tân yn Nghymru



Cyhoeddwyd y map hwn ym Mwletin Llên Natur 85, Mawrth 2015

Dyma ddsbarthiad y pryf tân yn Nghymru yn ôl arolwg y British Naturalist’s Association. Mae’r cylchoedd yn dangos presenoldeb yn sgwariau 10km² y grid cenedlaethol (rhaf du yn dynodi ar ôl 1980 a’r rhaf gwyn yn dynodi cyn 1980).

- [1] Bwletin 85: <https://goo.gl/Zrf3Um>
- [2] ukglowworms blogspot: <https://goo.gl/tcm2ee>
- [3] Bwletin 66 <https://goo.gl/afWzSZ>

1 Awst 1796: *We had three tedious miles to go after reaching what we fully expected was the outskirts of Dolgellau, and mistaking frequently the glow worms in the hedges for lights in the town. The glow worms were this night unusually [bright] and I was not a little surprised to see them at our approach darting over the hedges into the fields.*

(1797) Journal of a Tour in North Wales

Arthur Aikin

Y tro diwethaf i mi weld tân bach diniwed [magïen] neu yn hytrach tanau bach diniwed oedd yn yr 1970au a hynny gerllaw rheilffordd y GWR gynt rhwng Blaenau Ffestiniog a Llan Ffestiniog. Roedd o leiaf tri ohonynt yn y tyfiant ar ochr y lein nid ymhell o gefnau tai cyngor Penygwndwn. Nid oes gennyf gof o weld rhai yn unman yn yr ardal ers y tro hwnnw.

Steffan ab Owain

Yr ywen wenwynllyd

Rhywbeth (mwyalchen efallai?) wedi bod yn gwledda ar ffrwythau'r ywen wenwynig (i ni) ym mynwent Eglwys Llanddeiniolen 19 Hydref 2018.



Aderyn du yn bwydo ar aeron - Coed Treborth 02 Tachwedd 2018.

Derec Owen



Mwyalchen, Derec Owen

Mae ffrwyth yr ywen yn fwyadwy ond i chi beidio llyncu'r garreg. Blas ac ansawdd diddorol! Dan Morris

Fel y dywedwyd uchod, yr hedyn ei hun ond nid "crawd" (aril) yr aeron sy'n wenwynig. Gall adar ac ychydig o famaliaid fwyta'r aeron os nad ydynt yn llyncu'r hedyn neu os bydd yr hedyn yn pasio drwy'r perfeddion heb ei falu.

Jackie Wilmington

Fel dwi yn dalld mae hon yr ywen hynna ym Mhrydain, fis yno ddiweddar ma yn casglu englyn.

Oswyn Williams


Awgrym o lefydd tywyll...



Wedi gweld llun hyfryd o dderyn du ar Cymuned Llên Natur. A ninnau ar y llwybr du i'r gaeaf dwi'n edrych ymlaen at ei glywed eto, er y bu'n dawel iawn eleni. Dyma lun wnes i mewn ymgais i bortreadu cerdd hyfryd R.S. Thomas.

Wyn Thomas

Pererindod y corhedydd






Corhedydd y graig gyda modrwy gwyrdd gyda'r llythrennau TAN mewn gwyn arno ar y Cob ym Mhorthmadog bora 'ma (11 Tachwedd 2018).

Modrwywyd yn Maletangen yn Norwy ar 9fed o Fedi eleni sef 62 diwrnod yn ôl. Ceiliog ifanc ydi'r corhedydd. Cyw o 2017. Mae o wedi hedfan 1293 o gilomedrau i gyrraedd Port [mewn dau fis]! Dyma gorhedydd y graig cyntaf i'w fodrwyo yn Norwy i'w weld yng Nghymru.



Elfyn Lewis

Fel yr hed y corhedydd...

Dwy hwyaden - chwe llyn - deugain mlynedd yn ôl



Dyma'r llynnoedd a'u dyfnderoedd y cyfeirir atynt isod.



Dyma gychwyn ar ddadansoddi hen gyfrifiadau o'r 1980au i 2003 (gan DB a'r diweddar Marc Jones) o adar llynnoedd "Cylch yr Wyddfa". Dyma gymhariaeth rhwng hoff llynnoedd yr hwyaden bengoch (chwith) a'r hwyaden gopog (de) o blith llynnoedd Padarn, Peris, Gwynant, Dinas, Gader a Chwellyn.

Llyn GWYNANT oedd y mwyaf atyniadol i'r hwyaden bengoch. Llynnoedd DINAS a CHADAIR oedd yr ail mwyaf poblogaidd iddynt, a CHWELLYN a PHADARN ychydig yn llai atyniadol. Ychydig iawn o hwyaid pengoch gafwyd ar llyn PERIS dros y cyfnod dan sylw. Mis Rhagfyr oedd anterth poblogaeth y bengoch trwy'r trwch. Mae'n debyg mai maint y basddŵr yn y llyn oedd yn penderfynnu faint o adar a allai gynnal.

Llynnoedd PERIS a PHADARN oedd hoff llynnoedd yr hwyaden gopog.

Mae'r gwahaniaeth yn y defnydd a wnaed o'r chwe llyn gan y ddwy hwyaden yn syfrdanol. Cynyddodd y ganran ar Llyn Peris dros y cyfnod. Tybed beth oedd mor ffafriol i'r gopog ar y llyn llwm hwn. Beth oedd yn digwydd yng Nghynllyn Gwefru Dinorwig ar y pryd?

Crwybr y cacwn



Tasg heddiw gan fod hi'n dywydd gwael.

Tynnu nyth Gwenyn Meirch o'r atig, mae wedi bod yno dros yr haf ac wedi dod i ben yn y mis dwytha ma. Campwaith go iawn, tua 10 modfedd yn grwn.

Meddai Huw Eds: "Pob brenhines yn gadael ac yn cychwyn nyth newydd ar ôl gaeaf gysgu ac ddim yn dychwelyd i hen nyth".

Penygraigwen, Môn 10.11.18 Huw Eds (FB)

'Annoeth cicio nyth cacwn'

...meddai hen gynghanedd (Alun Williams)



Sioni Wynwyn gan Dyfed Evans

Pan ddaw yn wyneb lawen - a'i aur dorch
Mor dwt ar ei gambren,
Ei ergyd i gloi bargaen
Yw hud ei Lydaweg hen.

Carbon diocsid: y gwir ar gau

Agorwyd y ddaol gan **Richard Parry Hughes**:

Mae 'na ragdybiaeth fod yna fwy o goed erystalwm.... a phan oeddwn i yn blentyn bron i 70 mlynedd yn ôl. Oes gan eraill luniau i brofi yn wahannol?

Richard Parry Hughes (30 Medi 2018)



Llên Natur: Dyma dystiolaeth o ymlediad y coed (gallaf warantu bod y ddau lun wedi eu tynnu o fewn llathenni o'i gilydd). Nid yw un neu ddau o luniau yn profi dim naill ffordd neu'r llall wrth gwrs. Ond mae trwch ohonynt yn awgrymog iawn (chwiliwch yng ngwefan Llên Natur am 'cardiau post' neu 'cerdyn post' i weld mwy o enghreifftiau).

Hefin Williams: Coed yn danwydd rhad yn yr oes a fu a phawb allan yn eu hel/casglu a phob porfa yn gystadleuol iawn yn cadw'r tyfiant coed i lawr yn arbennig yn y tyddynod ac ar y tîr comin. Gwneid defnydd o bopeth bron pan nad oedd fawr arall i'w gael. Diolch bod y dyddiau caled rheini drosodd. [Efallai bod dyddiau celyd ar eu ffordd yn ôl yn anffodus].



Dei Tomos: Mae Richard yn iawn, mae na lu o luniau yn Eryri ganrif fwy neu lai yn ôl pan oedd coed o gymharu a heddiw yn eithriadol brin.... Does bosib fod bwriad y Llywodraeth yn yr Ymgynghoriad Dadgarboneiddio i blanu 60mil o hectrau o goed yn gwneud sens chwaith. Mi wnaeth y coniffereiddio o dan y Comisiwn Coedwigaeth beth mwtral o ddrwg, difetha cynefinoedd a phorfeydd, llawer mewn manau anghysbell nad oes modd heddiw cael y coed oddi yno, cofio

Abergwyngregyn Weinyddwr. Mae angen coed, mae

angen amrywiaeth o goed, nid 60mil hectar, ac ar ôl eu plannu mae angen edrych ar eu hol yn well na'r drefn bresennol.

RPH: Diolch Dei Tomos. Rwyf wedi holi nifer fawr o ffermwyr eraill, ac maent i gyd yn cytuno ac yn gallu dangos degau o leiniau o dir sydd bellach tan goed oedd yn dir glas. O safbwynt plannu coed conwydd, does dim amheuaeth eu bod wedi cael effaith ddrwg ar yr afonydd. Fy mhrofiad i ydi yr Afon Erch, lle plannwyd cannoedd o aceri o gorsydd (lle'm magwyd) yn nharddiad yr afon. Mae wedi cael dwy effaith: 1. Llif yr afon yn codi yn gynt a gostwng 'run mor sydyn, a hynny oherwydd y draeniad gwell. 2. mae wedi llygru'r dŵr heb os nag oni bai. Dŵr asid, mwynau yn cael eu rhyddhau o'r mawn ayyb.

Wendy Jones: Ond cafodd lot fawr o goed ei ddefnyddio amser rhyfel byd cyntaf ac mae clirio tir, o goed a gwrych yn rhywbeth sydd wedi bod yn mynd ymlaen ers canrifoedd a mwy, cyn y chwyldro diwydiannol a'r chwyldro amaethyddol. Mae coed yn helpu angori pridd a sugno dŵr ac yn cynnal bywyd gwyllt amrywiol gan gynnwys pryfaid ac adar. Mae yna ddigon o dystiolaeth bod yna fwy o goed wedi bodoli yn ein byd heb son am Gymru. Rydym wedi defnyddio coed yn helaeth ac yn dal i wneud. Mae yn ddefnyddio defnyddiol os fedra ni eu defnyddio fo fel pob peth arall mewn modd cynaliadwy.

RPH: Ar ben hynna mae'r holl goed conwydd ar ein corsydd, a'n ffriddoedd yn ychwanegol.

Heulwen Ann Jones: Mi fydda dad yn deud o hyd 'Mae'r oes di newid - coed yn bob man dyddia ma'; felly roeddwn i'n meddwl fod na lai erystalwm!

RPH: Mae'r rhagdybiaeth sydd yn cael ei ledaenu yn angywir. Do mi chwalwyd cloddiau a gwrychoedd yn y 60au i hybu defnydd o beiriannau amaethyddol, ond mae y dinistr rwan yn amal er mwyn adeiladu ffyrdd ac adeiladu tai. Yn y cyfamser mae "natur" wedi bod yn plannu coed ac mae patrwm amaethyddiaeth ynghyd a polisiau negyddol at gynhyrchu bwyd wedi golygu nad ydynt wedi cael eu torri a'u clirio. Tydi hi ddim yn talu i geisio tyfu bwyd ymhob cornel o bob cae fel ag yr oedd.

Cofio'r rhyfel mawr

Adar Maes y Gad

Bu Gapten Arthur de Sowerby drannoeth cyflafan fawr y Somme yn Chwefror 1919 yn ymweld â ffosydd gogledd Ffrainc yn rhinwedd ei swydd, ac wrth basio, yn gwyllo adar. Beth welodd o felly? *Probably, meddai, the commonest birds of the devastated areas in north France are the Hooded Crow and the Magpie. Y fran lwyd a'r biden, dau aderyn sydd yn bwyta celanedd. Ydych chi'n meddwl yr un peth ag yr ydwi'? Am y fran lwyd dywedodd ...and a handsome fellow he is too.....the Carrion Crow, whose very name stigmatises him as a probable frequenter of a stricken field,..depends more on cultivated land than does the Hooded Crow. Ni welodd llawer o frain tyddyn felly - dyna ydi ein henw mwy cartrefol ni ar y carrion crow. Yma ym Mhrydain nid yw'r ddwy fran yn cyd-fyw yn yr un ardal. Am y biden, meddai he is everywhere, and appears to favour smiling farmland and shell-torn wilderness alike...fel petai Diffaethdir y Gad yn gynefin cyfarwydd i bawb!*



Y fran lwyd yw bran arferol Stavanger
Llun: Ann Griffiths Williams

before 1970 birds that had been ringed in Finland were also found.


Painters often appear in paintings by Hieronymus Bosch (1450-1516) and Hendrick Avercamp (1585 - 1634). In the Garden of Delights (the creation of Eve) the bird is even remarkably lifelike. Then the colorful crow was common in the winter, also in the cities. In the beginning of the 20th century, the occurrence in the cities gradually came to an end. During this entire century the bird was often seen in winter in open landscapes such as meadows and especially in coastal areas such as on sandy beaches and in the dunes. Variegated crows were also observed as migratory birds. From the 1950s there are quantitative data on the numbers of migratory birds, counted at Bloemendaal. These figures show a rapid decline of 13% per year in the annual averages between 1953 and 1980. In 1980, approximately 2% of the 1953 average was counted. In the 1970s, nationally coordinated censuses were set up by Sovon Vogelonderzoek Nederland. These counts also show a free fall in the number of colorful crows observed in the winter between 1978 and 2014. Even then, the rate of decline is 13% per year.

This decline in numbers does not say anything about the numbers of breeding birds in the breeding grounds, which have remained constant or possibly even increased according to most sources. Probably the birds do not leave anymore. This is related to the availability of food in the breeding areas in winter (garbage dumps) and climate change."

Gwyn Jones

Rydych wedi ateb cwestiwn sydd wedi fy 'mhoeni' ers blynnyddoedd. Mae'r dystiolaeth hanesyddol o gelf yn sicr yn anghyson. Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod newid yn y patrwm mudo tymhorol wedi digwydd. Diolch am yr ymchwil rhyngwladol trylwyr.

Duncan Brown



"Turlun gaeaf gyda thrap adar"
Pieter Bruegel yr Ieuengaf

Mae Gwlad Belg yn ardal arferol y fran dyddyn, nid y fran lwyd, heddiw.
Y llun gan P. Brueghel <https://goo.gl/Cf87gk>

Tylluanod - R. Williams Parry

Bu R. Williams Parry yn athro yn Ysgol Sir Brynrefail ar un adeg ac mae'n debygol iawn y byddai'n croesi Pont Pen Llyn yn ddyddiol ar ei ffordd i'r ysgol.

Dyma'r bont sydd ar derfyn gwaelod Llyn Padarn cyn llifo i Afon Rhythallt ac yna Afon Seiont cyn cyrraedd Caernarfon a Chulfor Menai.




Tylluan Frech
Llun - Alun Williams



A'r bont yn wag sy'n croesi'r dŵr

'Pan fyddai'r nos yn olau a llwch y ffordd yn wyn a'r bont yn wag sy'n croesi'r dŵr difwstwr ym Mhen Llyn,



Dŵr difwstwr ym Mhen Llyn.




Lwyncoed, Cwm y Glo

**Y tylluanod yn eu tro,
Glywid o Lwyncoed, Cwm y Glo.'**

Mae pedwar o benillion yn y gerdd. Sonnir am Llyn y Ffridd, Ffridd y Llyn, Afon Glaslyn ac Ynysfor. Beth am chwilio ble mae y rheiny? Dyma linc i'r gân gyda Tara Bethan yn canu:

<https://goo.gl/CE1smm>



Neges Nadolig ICELAND eleni - Dyma ddolen ar gyfer eu hysbyseb gwaharddedig : <https://goo.gl/VqM8WT>

Mae Llên Natur yn rhoi cyfle arall i chi i'w gweld eto, cliciwch!